

Y CYFANSODDIAD ADRAN 18C GWEITHDREFN ADRODD CYFRINACHOL AR GYFER AELODAU

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Dyma weithdrefn adrodd gyfrinachol y Cyngor ar gyfer Aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 6(1)(b) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:-
"Rhaid i chi adrodd, boed trwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio ar gyfer, neu ar ran, eich awdurdod, yr ydych yn credu ei fod yn cynnwys neu'n debyg o gynnwys ymddygiad anghyfreithlon (nid yw'n cynnwys troseddau neu ymddygiad sy'n gymwys i dderbyn cosb ar ffurf cosb benodedig at ddibenion y paragraff hwn)."
- 1.2 Diben y weithdrefn hon yw darparu eglurder i Aelodau am y broses ar gyfer codi pryderon o'r fath o fewn y Cyngor.

2 CWMPAS Y WEITHDREFN HON

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bryderon am ymddygiad gan y mathau canlynol o unigolion (nid yw'r rhestr yn gyflawn):-

- i. Aelodau etholedig eraill y Cyngor;
- ii. Swyddogion y Cyngor;
- iii. Gweithwyr asiantaeth, ymgynghorwyr a chontractwyr a gyflogir gan y Cyngor;
- iv. Gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yn y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

3 MATERION NAD YW'R WEITHDREFN HON YN YMWNEUD Â HWY

Yn gyffredinol, ni fydd y weithdrefn hon yn berthnasol yn yr achosion canlynol:-

- i. Materion sy'n amodol ar ymchwiliad cyfredol neu wedi cau i mewn i fater (naill ai'n fewnol neu'n allanol);
- ii. Pryderon sy'n dod o fewn cwmpas Polisi Rhannu Pryderon y Cyngor;
- iii. Cwynion sy'n deillio o dorri'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion;
- iv. Pryderon am ddiogelwch a/neu les unigolyn (plentyn neu oedolyn); dylai aelodau gysylltu â'r tîm ar ddyletswydd ar 01978 292039/292066 neu anfon e-bost at socialservices@wrexham.gov.uk yn ystod oriau swyddfa arferol neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau ar 0845 0533116 neu anfon e-

bost at emergency.hours@wrexham.gov.uk neu yn achos perygl uniongyrchol brys, cysylltwch â'r heddlu ar 999.

4 CYFRINACHEDD

- 4.1 Caiff adroddiadau neu atgyfeiriadau a wneir o dan y weithdrefn hon eu trin gan y Cyngor yn gyfrinachol ac ni fyddant fel arfer yn cael eu gwneud yn gyhoeddus (neu eu cyfleu i Aelodau neu swyddogion eraill) oni bai ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu o dan amgylchiadau lle mae hyn yn angenrheidiol.
- 4.2 Bydd disgwyl i Aelod sy'n gwneud adroddiad o dan y weithdrefn hon gadw ei adroddiad yn gyfrinachol a bydd yn sicrhau na chaiff unrhyw ymchwiliad ei rwystro gan ddatgeliad o'r adroddiad neu gŵyn a wnaed.

5 ADRODD AM BRYDERON

- 5.1 Dylai gweithgaredd anghyfiawn y mae'r weithdrefn hon yn berthnasol iddo gael ei adrodd i Swyddog Monitro'r Cyngor, a fydd yn penderfynu sut i fynd â'r mater ymhellach. Gellir gwneud adroddiadau ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rhaid i adroddiadau a wneir yn ysgrifenedig gael eu marcio'n glir fel rhai CYFRINACHOL.

6 GWEITHRED YN DILYN ADRODDIAD AELOD

- 6.1 Unwaith y bydd y Swyddog Monitro wedi derbyn adroddiad gan Aelod dan y weithdrefn hon, bydd yn ystyried y mater ac yn penderfynu pa gamau pellach, os o gwbl, y bydd angen eu cymryd. Gallai hyn olygu ymchwiliad neu benderfyniad uniongyrchol y gŵyn.
- a. Fel arall, efallai y bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu bod y mater yn gofyn am gyfranogiad yr Heddlu neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu gorff, rheolydd neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith arall.
- b. Efallai y bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Aelod adrodd am ganlyniad yr ymchwiliad. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos. Yn dibynnu ar natur y mater sy'n achosi pryder, efallai y bydd angen i unrhyw fanylion pellach am yr ymchwiliad barhau'n gyfrinachol ac felly, cael eu dal yn ôl gan yr Aelod sy'n adrodd.